

Ar gyfer pwy mae'r daflen hon?

Mae'r daflen yn cynnig cymorth a chyngor i ddioddefwyr masnachu mewn pobl yn y Deyrnas Unedig.

Beth yw masnachu mewn pobl?

Mae masnachu mewn pobl yn drosedd ddifrifol. Bydd unigolyn wedi ei fasnachu os bydd wedi ei gludo i (neu symud o amgylch) gwlad gan eraill sy'n bygwth, dychryn, niweidio a'u gorfodi i wneud gwaith neu bethau eraill nad ydynt eisiau gwneud.

Mae gennych hawliau

Efallai eich bod yn teimlo'n ofnus, di-rym ac unig, ond mae cymorth ar gael ac mae gennych hawliau a dewisiadau. Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gellir eich helpu.

Beth yw fy hawliau?

- Yr hawl i gymorth emosiynol ac ymarferol annibynnol.
- Yr hawl i gael eich diogelu: mae masnachu mewn pobl yn drosedd. Os byddwch yn ei adrodd i'r heddlu mae'n rhaid iddynt ymateb.
- Yr hawl i gyngor cyfreithiol annibynnol i berwyl mewnfudo.

Os nodir eich bod yn ddioddefwr masnachu mewn pobl, yna bydd gennych hawl i:

- Gymorth a'ch diogelu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a sefydliadau eraill (gelwir hyn yn Fecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol): gall hyn gynnwys amser i ystyried eich opsiynau heb boeni am gael eich anfon o'r wlad, dod o hyd i le diogel i chi fyw, rhywun i siarad â nhw, eich helpu i ddod o hyd i feddyg, cyfreithiwr ac eraill all eich helpu.
- Cymorth a diogelwch unwaith y byddwch wedi adrodd eich profiad i'r heddlu: i gael gwybod beth sy'n digwydd gyda'ch achos ac i gael eich cefnogi gan y rhai sy'n rhan o'r broses gyfiawnder troseddol, megis yr heddlu a'r llysoedd.

Gallai rhai o'r arwyddion isod awgrymu y dylech geisio cymorth:

- A ddywedwyd wrthyfych eich bod yn dod i'r Deyrnas Unedig i weithio mewn swydd nad yw'n bodoli, ac yna'ch gorfodi i weithio mewn masnach wahanol neu anghyfreithiol dan amodau caled?
- A ddioddefoch drais neu gamdriaeth rywiol, neu a fgythywyd chi, eich ffrindiau neu deulu?
- A aeth y rhai a ddaeth â chi i'r wlad neu'r rhai oeddech yn gweithio iddynt â'ch pasbort neu ddogfennau mewnfudo oddi arnoch?
- A orfodwyd i chi dalu dyledion mawr yn ôl i'r rhai a ddaeth â chi i'r wlad, a'ch bod yn dal heb fod yn rhydd i adael y sefyllfa unwaith yr oeddech wedi talu'r dyledion?
- A yw'ch cyflogwyr yn cadw'r cyfan neu bron y cyfan o'ch cyflog?

Prosiect y Pabi

Ffôn: 020 7735 2062

Llinell Gymorth Mudwyr

Ffôn: 07766 668781

Prosiect TARA
(Yr Alban)

Ffôn: 0141 276 7724/
7729

Crimestoppers

Ffôn: 0800 555 111

Gallant roi cymorth i chi.

Cymorth ar gyfer dioddefwyr masnachu mewn pobl

Eich hawliau os ydych wedi eich masnachu i ymelwa ohonoch yn y Deyrnas Unedig.

Beth yw fy newisiadau?

- 1) Gallwch gysylltu â sefydliadau gwirfoddol all gynig cymorth emosiynol ac ymarferol.
- 2) Gallwch roi gwybod i'r heddlu am eich profiad.
- 3) Gallwch gael cymorth arbenigol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy gael eich cyfeirio at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol.

Gallwch ddewis mwy nag un o'r dewisiadau hyn, nid oes yr un dewis 'anghywir'.

Y MECANWAITH CYFEIRIO CENEDLAETHOL

Beth yw'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol?

Sefydlwyd y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol i ganfod, gynorthwyo a diogelu pobl sydd wedi eu masnachu.

Sut mae'n gweithio?

Cam 1: I gael rhagor o wybodaeth am y Mecanwaith ac i gael eich adnabod fel dioddefwr masnachu, dylech gysylltu ag un o'r canlynol: Prosiect y Pabi, Llinell Gymorth Mudwyr, Prosiect TARA (Yr Alban), yr heddlu, gwasanaethau mewnfudo ac/neu weithwyr iechyd.

Cam 2: Bydd y sefydliadau a restrir uchod yn esbonio'r broses yn llawn i chi, ac os byddwch yn cytuno byddant yn cyfeirio'ch achos at benderfynyddion. Yna fe wneir penderfyniad cychwynnol ar p'un a ydych yn ddiodeffwr masnachu.

Cam 3: Wedi i chi gael eich nodi fel dioddefwr masnachu, byddwch yn cael eich cyfeirio at wasanaethau cefnogaeth perthnasol a byddwch yn cael hawl i aros yn y Deyrnas Unedig am 45 niwrnod i ddod dros eich profiad. Gall y broses benderfynu gyntaf hon gymryd tua phum niwrnod gwaith; fodd bynnag, fe all gymryd mwy o amser mewn rhai achosion.

Cam 4: Yn ystod y cyfnod 45 niwrnod, bydd ail benderfyniad mwy ffurfiol yn cael ei wneud ar p'un a ydych wedi'ch masnachu ac yna fe ystyrir chi caniatâd preswyllo dros dro am flwyddyn i chi. Bydd y penderfyniad i ganiatáu preswyllo i chi yn ddiabynnol ar eich achos.

Pa gymorth sydd ar gael?

Gallai'r gefnogaeth gynnwys:

- dod o hyd i lety diogel dros dro
- eich helpu yn y llys
- eich helpu gyda thriniaeth feddygol
- darparu rhywun i'ch helpu i ymdopi â'ch profiad
- darparu cyfieithydd i'ch helpu i gyfathrebu yn Saesneg
- helpu dod o hyd i gyngor cyfreithiol annibynnol.

A yw'r broses yn gyfrinachol?

Ni fydd eich manylion personol na lleoliad ar gael i'r cyhoedd. Os byddwch yn dychwelyd i'ch cartref, **ni** fydd gwybodaeth ar eich profiad o fod yn ddiodeffwr masnachu mewn pobl yn ymddangos ar unrhyw ddarn o waith papur wrth i chi dychwelyd i'ch gwlad.

Os byddaf yn penderfynu cychwyn y broses Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol, a fyddaf yn gallu aros yn y Deyrnas Unedig os nad ydw i'n Ddinesydd Prydeinig neu Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Os bydd y penderfynyddion yn eich adnabod fel unigolyn a fasnachwyd, cewch aros yn y Deyrnas Unedig am **45 niwrnod** i ddod dros eich profiad. Yn ystod y 45 niwrnod, **ni** fydd yr awdurdodau mewnfudo yn eich anfon o'r Deyrnas Unedig.

Bydd y broses Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol yn gweithredu cyfochr ag unrhyw gais mewnfudo neu loches arall gennych. Efallai y bydd staff mewnfudo yn awyddus i siarad â chi i gael rhagor o wybodaeth, a gallai hyn ddigwydd yn ystod y 45 niwrnod pan fydd eich achos masnachu yn cael ei ystyried.

Wedi'r ail benderfyniad mwy ffurfiol ar p'un a ydych wedi'ch masnachu, cewch eich ystyried am ganiatâd preswyllo dros dro o flwyddyn.

Beth sy'n digwydd os nad yw'r penderfynyddion yn gweld digon o dystiolaeth / gwybodaeth i gredu fy mod wedi fy masnachu?

- Hyd yn oed os nad ydych wedi'ch nodi fel rhywun a fasnachwyd, efallai y byddwch yn dal i allu cael mynediad at gymorth emosiynol ac ymarferol.
- Os nad ydych yn Ddinesydd Prydeinig neu o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yna bydd y drefn fewnfudo arferol yn ailgychwyn. Gallai hyn

gynnwys gweithredu i'ch danfon yn ôl i'ch gwlad os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, ac os nad oes gennych yr hawl i barhau yn y Deyrnas Unedig.

- Efallai y gallwch gael cymorth i ddychwelyd i'ch gwlad os ydych eisiau gwneud hyn trwy gysylltu â'r Sefydliad Ymfudo Rhyngwladol (0800 783 2332).

ADRODD FY MHROFIAD I'R HEDDLU

Beth sy'n digwydd os byddaf yn penderfynu dweud wrth yr heddlu am fy mhrofiad?

Gall yr heddlu eich helpu os ydych yn ddiodeffwr trosedd. Bydd yr heddlu'n rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau yn eich achos, a'ch diogelu rhag yr unigolyn a'ch anafodd.

Os yw'ch achos yn mynd i'r llys, byddwch yn cael cynnig cymorth gan Wasanaeth Tystion annibynnol. Efallai y bydd gennych hawl i 'fesurau arbennig' i'ch helpu i roi tystiolaeth yn y llys, er enghraifft rhoi tystiolaeth o'r tu allan i'r llys trwy gyswllt fideo.

A fyddaf yn derbyn iawndal?

Efallai y bydd gennych hawl i iawndal unai'n uniongyrchol gan y troseddwr neu trwy'r Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod ar 0800 358 3601 neu trwy ymweld â www.cica.gov.uk

Cysylltu'n uniongyrchol â sefydliad gwirfoddol neu wasanaeth cefnogi diodeffwyr arall

Os nad ydych eisiau cysylltu â'r heddlu, gwasanaeth mewnfudo neu gychwyn y broses Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol, byddwch yn dal i allu mynd at sefydliadau gwirfoddol am gymorth.

Anogir diodeffwyr masnachu i gymryd rhan yn y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol ac i adrodd eu trosedd i'r heddlu er mwyn gallu dod â masnachwyr i gyfiawnder ac atal masnachu yn y dyfodol.

Llinell Gymorth i Ddiodeffwyr yn y Deyrnas Unedig – 0845 303 0900

Prosiect y Pabi – 020 7735 2062

Llinell Gymorth Mudwyr – 07766 668781

Prosiect TARA (Yr Alban) – 0141 276 7724/7729